

## NVDA

Mae NVDA neu NonVisual Desktop Access yn **ddarllenydd sgrin ffynhonnell agored am ddim** i'w ddefnyddio gyda chyfrifiaduron Windows.

Mae'n darllen sgriniau mewn llais synthetig yn debyg iawn i Read & Write ond mae wedi cael ei ddylunio **a'i greu gan bobl ddall a phobl â nam ar eu golwg** ar gyfer pobl ddall a rhai â nam ar eu golwg. Mae hefyd yn gymhathus ag arddangosiadau Braille.

I gael rhagor o wybodaeth am y meddalwedd hwn, ewch i'r wefan: <http://www.nvaccess.org/>

Dyma **ychydig o awgrymiadau a thriciau** i'ch helpu i ddefnyddio NVDA:

- Gellwch osod a rhedeg NVDA o yriant fflach (mae tua 50 megabeit o faint!). Felly gellir ei ddefnyddio ar **bron pob cyfrifiadur personol** heb fod angen ei osod yn syth ar y gyriant caled.
- Mae NVDA yn cefnogi'r holl raglenni poblogaidd gan gynnwys porwyr gwe, ebyst, cyfryngau cymdeithasol a rhaglenni Office megis Microsoft Word ac Excel.
- Mae'n gallu nodi **gwallau sillafu**, gwybodaeth am destun fel maint ffont, arddull a lliwiau.

- Mae'n gallu darllen **gwybodaeth amgen**, er enghraifft, testun ar luniau os oes.
- Mae'n cyhoeddi'r testun sydd o dan bwyntydd y llygoden yn awtomatig a gallwch ddewis troi disgrifiad o leoliad y llygoden ymlaen.

Gallwch chi lawrlwytho NVDA yma:

<http://www.nvaccess.org/download/>. Mae'n **rhad ac am ddim**, ond gallwch gynnig cyfraniad tuag at ei ddatblygu os ydych yn dymuno hynny.

